Cofnodion cyfarfod 21 Ebrill 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Eifion Williams	
Dan Williams	Casi Roberts	
Cynog Prys	Llŷr Evans	
Mei Gwilym	Iestyn Harris	
Nerys John	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod hanesyddol yn hanes y Cyngor gan y Cadeirydd Iwan Huws; y cyfarfod cyntaf yn defnyddio offer digidol. Dywedwyd bod yr argyfwng Cofid - 19 wedi dangos bod angen i'r Cyngor edrych ar gynllun parhad Busnes ac i drafod y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Elliw Williams, Lliwen Griffiths-Williams. Cymerodd y Cadeirydd y Cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Daniel Williams am gydgordio cynllun cyfaill y cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Dan Williams bod y Cyngor yn lwcus gan fod aelodau talentog yn eu mysg gyda thalentau technoleg fel Cynghorydd Casi Roberts a Mei Gwilym. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Nerys John am achos anarferol bregus a bod y mater wedi ei anfon at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Penderfynwyd mewn achos o ymholiad anarferol bod y mater yn cael ei gyfeirio ar y Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths. Yn dilyn y cyfarfod bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn cynnal adolygiad o'r Cynllun ac yn anfon ymlaen yr adroddiad. Trafodwyd y mater o'r Cyfarfod Blynyddol wedi i'r Clerc ddatgan nad oedd wedi derbyn datganiad Unllais ar y mater hyd yma. Dywedodd y Cynghorydd Gareth Griffiths bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn cyfarwyddiadau oddi wrth Lywodraeth Cymru i ohirio cyfarfod blynyddol Cyngor Gwynedd am flwyddyn a bod y Cadeirydd yn aros ymlaen am flwyddyn ychwanegol.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Gwahoddwyd y Cynghorydd Sir i gyflwyno ei adroddiad llafar. Cychwynnodd gyda chyfeirio bod cyfarfod digidol Cabinet Gwynedd bob bore. Mae rhan fwyaf o faterion mae yn ymwneud ag o ar hyn o bryd oherwydd Confid-19. Mae Gwasanaeth Cynllunio wedi ei addasu ar hyn o bryd. Mae esboniad yn y llythyr sydd wedi ei anfon at y Cyngor Cymuned, gweler Eitem 6.2.	
2.3	Yn lleol mae'n derbyn adroddiadau ynglŷn â phobl sydd wedi dod i'r ardal i aros yn eu cartrefi gwyliau/ail dy, mae yn adrodd yr hyn at yr heddlu. Mae yn derbyn fwy o adroddiadau gan bobl leol ond mae hyn i ddisgwyl gan fod pawb yn gweithio o adra neu yn gorfod aros adra.	
2.4	Mae gwaith ar wal Lan y Môr ar hyn o bryd wedi ei atal ond mae wedi derbyn e-bost heddiw yn dweud gobeithir ail ddechrau ar y gwaith ganol mis Mai.	
2.5	Mae hefyd wedi derbyn cwyn bod llwybr rhif 7 (Bodandreg i Bonc) wedi cau gan y tir feddiannwr, hyn oherwydd bod y	

	llwybr yn arwain heibio drws ffrynt y ffermdy. Mae Swyddog yn ymweld heddiw a gobeithir derbyn adroddiad yn y dyddiau nesaf. Deallir bod hyn oherwydd bod defnydd eithriadol o brysur o'r llwybr.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Eitem 6.1 gan y Cynghorydd Iwan Huws.	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cadarnhawyd gwariant a derbyn adroddiad ar gyfer Mis Mawrth 2020, derbyniwyd yn gywir gan y Cyngor.	
4.2	Trafodwyd y mater o dalu cyflog yr Ofalwraig. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn talu cyflog yr ofalwraig yn llawn ac yn gwneud cais am 80% o'r cyflog oddi wrth Gynllun Furlough y Llywodraeth o'r dyddiad 23 Mawrth 2020. Y Cynghorydd Iestyn Harris gydgordio ar gyfansoddi llythyr cais gyda'r Clerc.	
4.3	Mae cyfrifon blynyddol y Cyngor yn barod, bydd angen eu rhoi at ei gilydd ar gyfer eu harchwilio gan aelodau'r Cyngor Cymuned cyn y byddant yn mynd ymlaen am archwiliad mewnol oddi wrth Eluned Fôn Jones Cyngor Gwynedd. Nid yw'r Swyddog ariannol wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r archwiliad mewnol oddi wrth Gyngor Gwynedd ond mae wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth DBO sydd yn gwneud yr archwiliad allanol am y tro olaf eleni. Dywedwyd nad oedd brys am y cyfrifon a bod dim dyddiad wedi ei drefnu ar gyfer eu hanfon ymlaen atynt. Y Swyddog Ariannol I drefnu gyda'r Cynghorydd Iestyn Harris ar gyfer codi'r cyfrifon i'w hadolygu.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Mawrth 2020.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C20/0238/20/LL - Caffi Llofft Hwyliau, Sail loft Restaurant, Menai Bakery Glan y Môr, Y Felinheli LL56 4RQ - newidiadau i edrychiad blaen yr adeilad ynghyd a chreu estyniad yn y cefn - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
6.2	Llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â Gwasanaethau Cynllunio - Gwybodaeth yn Unig.	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Cau ffordd dros dro Penceunant – Gwybodaeth	
7.2	Cau Ffordd dros dro Tafarngrisiau – Gwybodaeth	
7.3	Cynnal Tiroedd - Cyngor Gwynedd - Gwybodaeth yn datgan na fydd gwaith o dorri'r gwair yn cael ei wneud tra bod yr argyfwng yn parhau.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Cofnodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gosod arwyddion ar y Lon Las i atgoffa'r cyhoedd o angen cadw at reolau'r llywodraeth ynglŷn â phellter cymdeithasol.	
8.2	Trafodwyd cynnal y Llwybrau. Mae toriad cyntaf y llwybrau i fod i ddigwydd diwedd mis Mai. Nid yw unrhyw waith cynnal tiroedd yn mynd yn ei flaen gan Gyngor Gwynedd, felly penderfynwyd cadw at yr un dref am y tro. Bydd adolygiad i aros gartref dechrau mis Mai ac efallai bydd mwy o	**CLERC**

	wybodaeth. Bydd yr adolygiad yn digwydd cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ac felly bydd modd gwneud penderfyniad arall pryd hynny os bydd angen.	
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Mae gwaith ar feinciau o eiddo'r Cyngor wedi ei gwblhau gan y contractwr Meical Hughes, nid yw anfoneb wedi ei dderbyn hyd yma ond rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Ariannol i'w dalu pan ddaw i law.	
9.2	Mae gwair y fynwent wedi ei dorri a bydd yn derbyn toriad arall mis nesaf. Mae'r Contractwr yn cau'r fynwent i wneud y gwaith ac yn rhoi arwydd ar y giât i ddatgan hynny. Mae yn gwneud hyn er mwyn sicrhau cadw at reolau'r Llywodraeth ar bellter cymdeithasol.	**CLERC**
10.0	**PROSIECTAU**	
	Dim i'w adrodd	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Mae'r Neuadd wedi cau ers y 23ain o Fawrth. Nid yw profion Tân yn digwydd ar hyn o bryd oherwydd nid oes defnydd arni. Mae hyn yn dderbyniol oherwydd Larwm at sicrhau gwacau'r adeilad gan ddefnyddwyr sydd yn bodoli yno a dim larwm ar gyfer gwarchod yr adeilad. Mae'r Cynghorydd Daniel Williams a'r Pensaer yn trafod cynlluniau rhatach o gael mynedfa i ofod o dan y llawr. Mae sgaffald yn parhau ar y safle ond mae anfoneb am ei ddefnydd wedi ei dalu. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn sicrhau nad yw presenoldeb y sgaffald yn costio i'r Cyngor Cymuned. Mae gwaith CCTV ar aros oherwydd yr argyfwng.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
	Trafodwyd y Cyfarfod Blynyddol a phenderfynwyd cynnal y Cyfarfod yn ddigidol a bod hysbyseb yn cael ei wneud i ddatgan hyn a bod gwahoddiad i'r cyhoedd fod yn bresennol drwy ddefnyddio Zoom.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:10	
Llofnod:		**Dyddiad:**